



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ardal Cyffordd Llandudno

Asesiad Effaith Cymunedol

Mehefin 2011

Cynnwys

	Page
1 Cyflwyniad	2
1.1 Strategaeth Gymunedol Conwy	2
1.2 Ysgolion Bro	2
1.3 Ysgolion lleol (dalgyloedd)	2
1.4 Ysgolion pentref gwledig	3
2 Proffil Ardal	3
2.1 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno	3
2.2 Cyfleusterau cymunedol	4
2.3 Busnesau	4
2.4 Cyflogaeth ac incwm	5
2.5 Prif Gynllun Cyffordd Llandudno	5
2.6 Moderneiddio llyfrgelloedd	5
3 Proffiliau Ysgol	6
3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion	8
4 Dull Asesu Effaith Cymunedol	8
4.1 Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith Cymunedol	10
5 Casgliadau ac argymhellion	17
Atodiad	19

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Canlyniad hyn oedd cynhoeddi *'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'* a'r *'Cynllun Gweithredu'* cysylltiedig yn Hydref 2010, ar ôl ei mabwysiadu gan y Cabinet.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer *'adolygiad mewn dwy flynedd'*.

Bydd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, ar gyfer ardal ac adeiladau addas i'r pwrpas yn cael eu gwneud er mwyn cyfeirio gwerthusiad dewis.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

Bydd y ddogfen hon yn ystyried effaith y dewisiadau arfaethedig yn ardal Cyffordd Llandudno ar y gymuned leol.

1.1 Strategaeth Gymunedol Conwy

'Annog dysgu a chreadigrwydd' yw un o bum thema Strategaeth Gymunedol Conwy.

Mae darparu cyfleoedd hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel yn hanfodol i wella bröydd Conwy. Mae darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel a gwasanaethau addysg a hyfforddiant yn rhan allweddol o sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd. Mae plant ag oedolion yn dysgu mewn sawl lle gan gynnwys ysgolion, colegau, sefydliadau hyfforddi, yn y gymdeithas a'r cartref. Rhaid sefydlu diwylliant ble mae unigolion, sefydliadau a busnesau yn cefnogi a hyrwyddo dysgu.

1.2 Ysgolion Bro

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r fro sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

1.3 Ysgolion Lleol (dalgylchoedd)

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn seiliedig ar ffiniau ward fel y darparwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol.

Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

1.4 Ysgolion gwledig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

2.0 Proffil Ardal

2.1 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno

Mae anheddiad Cyffordd Llandudno wedi'i gynnwys yn bennaf yn wardiau Marl a Phensarn, ac ar ei ffin mae ward Deganwy ar hyd Ffordd Pentwywn. Mae dwy ysgol gynradd yn y cylch, sef Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn. Mae Ysgol Nant y Coed yn addysgu Cymraeg fel ail iaith i ddisgyblion ac mae Ysgol Maelgwn yn cynnig addysg gynradd i ddisgyblion gyda Chymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Mae dalgylch Ysgol Nant y Coed yn fras yn dilyn terfyn ward Pensarn ond mae hefyd yn ymestyn i Marl. Mae gan Ysgol Maelgwn ddau ddalgylch amlwg sy'n gwasanaethu ffrydiau cyfrwng y Gymraeg a Saesneg, gyda'r dalgylch cyfrwng y Saesneg yn cynnwys llawer o ward Marl a dalgylch cyfrwng y Gymraeg yn cynnwys yr ardal hon ar ardal estynedig y tu hwnt.

Poblogaeth y ddwy ward yw 6,350.¹ Mae'n cynnwys cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc hyd 15 oed na chyfartaledd cymedr Bwrdeistref Sirol Conwy, a chyfran is o bobl o oed pensiwn.

Poblogaeth dalgylch Ysgol Nant y Coed yw 3,024 gyda 3,352 o breswylfeydd o fewn milltir i'r ysgol. Poblogaeth ffrwd cyfrwng y Saesneg dalgylch Ysgol Maelgwn yw 2,738 gyda 3,835 tŷ o fewn milltir i'r ysgol.²


Mae Cynllun Datblygu presennol Conwy (2007-2022) yn dangos y bydd safleoedd tai newydd yn cael eu datblygu yng Nghyffordd Llandudno, gyda'r bwriad i ddalgylch Maelgwn gael 241 o dai pellach a 200 o dai eraill yn nalgylch Nant y Coed. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai arfaethedig newydd a safleoedd gyda chaniatâd cynllunio cyfredol. Mae'n bosibl y bydd 40 disgybl ychwanegol o ganlyniad i'r tai ychwanegol hyn yn nalgylch Maelgwn a'r posibilrwydd o 30 disgybl o ganlyniad i'r tai newydd yn nalgylch Nant y Coed. Mae datblygiadau preswyl mawr (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol o'r LDP) wedi eu cynllunio erbyn 2022 yn safleoedd Esgyryn a'r clwb cymdeithasol (ardal wahanol i'r un a ystyrir ar gyfer safle'r ysgol).³

¹ 2009 Amcanestyniadau poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol; amcanestyniadau poblogaeth ardal fechan arbrol ONS

² Fel yr uchod

³ Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022 (argraffiad diwygiedig 2011) Polisi strategol HOU/1 – Cyfarfod â'r angen am dai

Map 1. Lleoliad ysgolion cynradd yng Nghyffordd Llandudno a ffiniau wardiau Marl a Phensarn



2.2 Cyfleusterau cymunedol

Mae'r cyfleusterau canlynol ar gael ar gyfer defnydd y trigolion:

2.2.1 Dalgylich Ysgol Maelgwn

- Clwb Cymunedol Cyffordd Llandudno a chae chwaraeon
- Canolfan Ieuenctid Cyffordd Llandudno
- Rhandiroedd Rhodfa San Siôr
- Caeau Chwarae Rhodfa Victoria

2.2.2 Dalgylich Ysgol Nant y Coed

- Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno
- Llyfrgell
- Cynllun Eglwys Sant Mihangel
- Neuadd Goffa
- Cae chwarae Cae Derw

2.3 Busnesau

Mae nifer o fusnesau yn ardal Cyffordd Llandudno, wedi'u lleoli'n bennaf yn ward Phensarn. Mae sawl mân werthwr a darparodd gwasanaeth wedi'u lleoli ar Ffordd Conwy, ac mae Stad Ddiwydiannol Tre Marl yn cynnwys amrywiaeth eang o fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys lleoedd gwerthu ceir ac arbenigwyr oergelloedd. Mae gan gyrff cyhoeddus storffeydd yma, gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae datblygiad diweddar safle 'The Point' wedi cynnwys adeiladu swyddfa ranbarthol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Sarn Mynarch'.

2.4 Cyflogaeth ac incwm

Mae graddfeydd hawlio di-waith JSA Chwefror 2011 yn dangos bod gan Marl raddfeydd diweithdra is (3.1) na Phensarn (4.4) a'r cyfartaledd sirol (4.1).⁴

Yn ôl cyfrifiad 2001, y diwydiant ceir yw'r cyflogwr mwyaf yn y ddwy ward (Marl 20.6% a Phensarn 22.1%), ac yn cael ei ddilyn gan iechyd a gwaith cymdeithasol (15.7% a 14.1%).⁵ Roedd cyflogaeth yn y ddau sector ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig. Roedd cyflogaeth yn y diwydiant ceir ychydig yn uwch na chyfartaledd Conwy a chyflogaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfartal i'r cyfartaledd sirol ym Marl ac ychydig yn is na'r cyfartaledd ym Mhensarn. Roedd cyflogaeth mewn adeiladu, lletygarwch, addysg ac eiddo diriaethol i gyd wedi'u cynrychioli ar raddfeydd o rhwng 4.8% a 14%. Roedd amaethyddiaeth a choedwigaeth, gwasanaethau, cludiant a chyllid yn llai amlwg.

Cylog cymedrig y sir yw £24,950. Mae cyfartaledd cyflog cartref ym Marl yn uwch sef £26,556, ac yn is ym Mhensarn - £23,743.⁶

2.5 Prif Gynllun Cyffordd Llandudno

Yn dilyn gweithdai rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus yn 2008, yn 2009 cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynigion adfywio ar gyfer y dyfodol. Disgrifiwyd gweledigaeth ar gyfer yr ardal;

“Bydd Cyffordd Llandudno yn dod yn gymuned unigryw ac yn ganolbwyt economaidd allweddol yng nghalon Gogledd Cymru”

Mae'r prif gynllun hwn yn cynnwys Gwella a Datblygu Conwy Road, Datblygu Gorllewin Cyffordd Llandudno, Gwella Cyfleusterau Cymunedol, Gwella Cludiant a Mynediad, Moderneiddio Ysgolion Cynradd, Adfywio ac Adnewyddu Cymdogaethau Preswyl ac ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio trenau nwyddau yng ngorsaf Cyffordd Llandudno.

Hyd yma, dyrannwyd cronfa cynllun gwella eiddo i fusnesau i wella ymddangosiad eu heiddo yn yr ardal. Mae prosiect cyfalaf mawr i wella mynediad i gerddwyr i'r canolbwyt hamdden yn Ffordd 6G hefyd wedi dechrau. Bydd y gwaith yn golygu lledu'r ymyl i ddarparu palmant newydd ar ochr ddwyreiniol Ffordd 6G, sy'n rhedeg dros y rheilffordd ac yn dapparu mynediad i ac o'r cyfleusterau hamdden a siopa. Bydd buddsoddiad pellach yn dilyn i wella'r amgylchedd o amgylch rhai o'r llwybrau llai deniadol ac i wella'r strydlyn yn ardal Conwy Road.

2.6 Moderneiddio llyfrgelloedd

Yn 2006, bu i Wasanaeth Llyfrgelloedd Conwy gynnal adolygiad o'r gwasanaeth trwy ymgynghori'r eang gyda defnyddwyr ac eraill. Canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â gofynion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, yw prif yrwyr y rhaglen Moderneiddio Llyfrgelloedd.

Mae nifer o lyfrgelloedd yn y sir yn cael eu hadolygu o fewn y rhaglen hon, gan gynnwys llyfrgell Cyffordd Llandudno. Cynigir un llyfrgell strategol i wasanaethu Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno. Ni wnaed penderfyniad terfynol ynghylch lleoliad y llyfrgell strategol a bydd hyn yn amodol ar werthusiad dewisiadau a chymeradwyaeth gan Gonwy.

⁴ NOMIS Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Chwefror 2011

⁵ Cyfrifiad 2001

⁶ Data Paycheck CACI

3.0 Proffiliau Ysgol

Ysgol Maelgwn

Mae arolwg diweddaraf ESTYN ar Ysgol Maelgwn yn cynnwys y sylwadau canlynol:⁷

“Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ac ymweliadau, sy'n cyfoethogi'r profiadau mae disgyblion yn eu cael yn y dosbarth. Gwneir defnydd effeithiol o'r ganolfan wybodaeth technoleg leol i ddisgyblion hŷn, ac mae rhai o'r disgyblion yn cyfrannu tuag at greu pecyn gwybodaeth ar Dywysog Maelgwn ar gyfer gwefan hanes lleol y BBC. Mae'r amrywiaeth o brofiadau a gynigir i ddisgyblion mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn eang ac o ansawdd uchel”.


“Mae nifer o glybiau chwaraeon, yn ogystal â chyfleoedd wythnosol i ddysgu ieithoedd tramor. Mae disgyblion yn cymryd mantais o'r cyfleoedd hyn a hefyd yn cyfrannu i'w papur lleol trwy ysgrifennu am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn yr ysgol. Er hynny, mae rhai disgyblion yn teimlo nad oes digon o gyfleoedd i bawb gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau”.

“Mae'r cyfleoedd niferus i ymwneud â'r celfyddydau a gweithgareddau cerddorol, ynghyd ag ymweliadau i fannau yn yr ardal ac ymhellach, yn cyfoethogi profiadau cymdeithasol yn dda ac yn ehangu eu profiadau diwylliannol”.

“Mae agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig wedi treiddio yn dda i nifer o agweddau o fywyd a gweithgareddau'r ysgol. Gwahoddwyd Beirdd Plant Cymru, sef Gwyneth Glyn a Mererid Hopwood, yn eu tro i weithio gyda disgyblion; mae hanes boddi Cwm Tryweryn yn faes sy'n cael ei astudio gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2”.

“Mae darpariaeth yr ysgol i hyrwyddo sgiliau dwyieithog disgyblion yn dangos elfennau eithriadol. Mae athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio Cymraeg 'achlysurol' yn y cyd-destunau perthnasol”.

Map 2. Dalgylch Ysgol Maelgwn



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2011
© Crown copyright. All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380 2011

⁷ Adroddiad Arolwg ESTYN ar Ysgol Maelgwn Chwefror 2008

Ysgol Nant y Coed


Mae arolwg diweddaraf ESTYN ar Ysgol Nant y Coed⁷ yn cynnwys y sylwadau canlynol:⁸

'Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol, sy'n ehangu a gwella'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau i fannau o ddiddordeb, cyfraniad ymwelwyr, clybiau, gwaith cartref a gweithgareddau addas eraill. Mae cangen o'r Urdd yn yr ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion berfformio a chystadlu mewn chwaraeon ac eisteddfodau ac mae hyn yn meithrin eu hyder wrth iddynt berfformio'n gyhoeddus.'

'Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais da ar hyrwyddo sgiliau dwyieithog disgyblion. Gwneir defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn arferion dyddiol yr ysgol ac mae disgyblion yn gwneud ymdrechion priodol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi. Mae'r sylw a roddir i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngwaith yr ysgol yn dda. Mae etifeddiaeth a diwylliant Cymru yn cael ei astudio'n effeithiol trwy bynciau fel hanes, celf a cherddoriaeth, a thrwy weithgareddau all gwricwlar gysylltwyd â'r Urdd.'

'Mae cysylltiadau'n dda â rhieni, yr ardal, ysgolion a sefydliadau eraill. Mae rhieni yn canmol gwaith yr ysgol er yr hoffai rhai ohonynt gael mwy o wybodaeth am yr hyn addysgir. Mae'r mwyafrif llethol yn ei chael yn hawdd cyfathrebu gyda'r ysgol ac mae'r cytundebau cartref/ysgol yn cael eu llenwi'n briodol. Mae'r gymdeithas rheini athrawon yn codi arian arwyddocaol i'r ysgol a defnyddir y rhain i brynu adnoddau ychwanegol. Daw trigolion y cylch i wrando ar ddisgyblion yn darllen ac maent yn hyrwyddo hyder a sgiliau'r disgyblion yn effeithiol.'

Map 3. Dalgylch Ysgol Nant y Coed



⁸ Adroddiad Arolwg ESTYN ar Ysgol Nant y Coed Chwefror 2007

3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion

		Ysgol Maelgwn	Ysgol Nant y Coed
Plant yn byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol (o fewn dalgylchoedd cyfrwng Saesneg)			
		28% 51 (182)	53% 138 (262)
Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol			
Clwb brechwast	Tymor ysgol	Dyddiol	-
Pêl-droed	Tymor ysgol	Unwaith yr wythnos	10 sesiwn
Pêl-rwyd	Tymor ysgol	Unwaith yr wythnos	15 sesiwn
Clwb coginio	Tymor ysgol	Dwywaith y mis	-
Rygbi	Tymor ysgol	Unwaith yr wythnos	-
Urdd	Tymor ysgol	Unwaith yr wythnos	20 sesiwn
Pêl-droed Kick it	Tymor ysgol	-	5 sesiwn
Clwb mathemateg	Tymor ysgol	-	10 sesiwn
Clwb Criced	Tymor ysgol	-	6 sesiwn
Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol			
Eglwys		-	Dwywaith y flwyddyn
Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol			
Clwb tu allan i'r ysgol	Tymor ysgol	Dyddiol	-
Gwersi Cymraeg	Tymor ysgol	9 sesiwn	-
Ymarfer côr	Tymor ysgol	16 sesiwn	-
Cylch Meithrin	Tymor ysgol	Dyddiol	-
Dosbarthiadau Zumba	Tymor ysgol	-	Unwaith yr wythnos
Brownies	Tymor ysgol	-	Unwaith yr wythnos
Rainbows	Tymor ysgol	-	Unwaith yr wythnos
Effaith ar fusnesau a chyflogaeth lleol			
Busnesau manwerthu cyfleustra yn y dalgylch		1	2
Busnesau gofal plant yn y dalgylch		2	1
Busnesau sy'n cyflenwi'r ysgol yn y dalgylch		0	2

4.0 Aseiad Effaith Cymunedol

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Datblygiad Cymunedol ystyried yr effaith y dewisiadau canlynol o Gynllun Gweithredu 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' ar gymuned Cyffordd Llandudno:

Dewis 1 (a arweinir gan y gyrrwyr) – ysgol ardal ar un safle (newydd) (un ai *Esgyryn* neu *Albini House*)

Dewis 2 (a ddymunir gan yr ardal)- ysgol ardal ar un safle (newydd) (un ai *Esgyryn* neu *Albini House*)

Dewis 3 – Cadw'r ysgolion presennol

Dewis 4 – Ysgol Ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

Bu i bob ysgol yn yr ardal gyflwyno gwybodaeth am eu swyddogaeth yn y gymuned (*gweler 3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion*). Gan ddefnyddio'r manylion hyn a gwybodaeth arall ynglŷn â Chyffordd Llandudno, bu i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol archwilio'r effeithiau posib y gall y dewisiadau arfaethedig eu cyflwyno.

Canfuwyd pum mesur allweddol gyda'r pwysoliad a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a'u defnyddio i sicrhau fod materion penodol yn cael eu cynrychioli yn briodol:

- Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu eu hysgol leol (Pwysiad: 30)
- Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (Pwysiad: 25)
- Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol (Pwysiad: 10)
- Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol (Pwysiad: 25)
- Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth (Pwysiad: 10)

Yn erbyn bob Dewis (e.e. 'Dewis 3, Cadw'r ysgolion presennol'):

- Aseswyd y pum mesur (e.e. 'effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth') i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned.
- Yna rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth oedd ar gael.
- Yna lluoswyd pob sgôr unigol gyda'r pwysoliad a gytunwyd ar gyfer y mesur.

Sgôr Mesur	Asesiad mesur	Cyfanswm sgôr mesur
-3	Dirywiad mawr	-201 i -300
-2	Dirywiad cymedrol	-101 i -200
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 i -100
0	Dim newid ar y cyfan	0
1	Rhywfaint o welliant	1 i 100
2	Gwelliant cymedrol	101 i 200
3	Gwelliant mawr	201 i 300

Mae Adran 4.1 yn cyflwyno canlyniad yr asesiad effaith ar gyfer bob dewis. Ar gyfer y fethodoleg lawn gweler yr Atodiad.

4.1 Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith Cymunedol

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
<p>Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol</p> <p>Pwysiad 30</p>	<p>-1 (-30)</p>	<p>-2 (-60)</p>	<p>0 (0)</p>	<p>-1 (-30)</p>	<p>Mae gan ddisgyblion sy'n byw yn nhref Cyffordd Llandudno ddewis o ddwy ysgol, tra gyda Dewis 1 a 2, collir y dewis hwn, ac i ryw raddau gellir dweud yr un fath am Ddewis 4 gan y rheolir y ddau safle fel un ysgol.</p> <p>O fewn dalgylch Ysgol Nant y Coed mae tua hanner y disgyblion yn dewis mynychu eu hysgol leol (53%). Yn Ysgol Maelgwn mae'n 28%. O'r 47% o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nant y Coed nad ydynt yn mynychu'r ysgol hon, mae tua hanner yn dewis mynychu Ysgol Maelgwn gerllaw.</p> <p>O'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Maelgwn, ar gyfartaledd mae llai o blant yn dewis mynychu eu hysgol leol, a llai fyth yn dewis eu dewis agosaf nesaf, Ysgol Nant y Coed. Mae mwy na dwywaith cymaint o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch hwn yn dewis mynychu Ysgol Deganwy yn hytrach nag Ysgol Nant y Coed. Yng nghyd-destun yr asesiad effaith hwn, ystyrir bod disgyblion sy'n mynychu'r naill ysgol neu'r llall yn cymryd mantais o'r dewis lleol hwn.</p> <p>O'r dewisiadau a gyflwynir yma, y dewis a ddymunir gan yr ardal yw ysgol ardal i gymryd lle'r ddwy ysgol sy'n bodoli. O ganlyniad mae rhywfaint o effaith cadarnhaol yn gysylltiedig ag ysgol ardal dewisiadau 1 a 2.</p>

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgyrn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
					<p><i>Ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Maelgwn, ystyrir y colli dewis hwn yn ddirywiad bychan (-1). Gyda mwy o ddisgyblion ar gyfartaledd yn bresennol yn dewis eu hysgol leol sef Ysgol Nant y Coed, ystyrir yr effaith ar y disgyblion hyn yn ddirywiad cymedrol mewn dewis (-2). Yn gyffredinol, ystyrir fod gallu rhieni i ddewis ar hyn o bryd rhwng y ddwy ysgol hyn yn weddol bwysig.</i></p> <p><i>Mae'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â cholli'r dewis hwn yn cael eu lleddfu rhywfaint gan effaith cadarnhaol datblygu Ysgol Ardal i gymryd lle'r ddwy ysgol sy'n bodoli, gan mai dyma'r dewis a ddymunir gan yr ardal.</i></p> <p><i>I rai disgyblion, gallai dewis ysgol ardal Esgyrn olygu cynnydd mewn amser teithio (cerdded) o gymharu â safle Maelgwn presennol i oddeutu 30 munud bob ffordd. Ystyrir y byddai ysgol ardal yn Esgyrn yn golygu dirywiad mawr (-3) yn hygyrchedd yr ysgol i ddisgyblion sy'n cerdded o ddalgylch Maelgwn. Byddai ysgol ardal mewn lleoliad mwy canolog yn Albini House yn cael effaith isafol (0).</i></p> <p><i>Gallai colli ysgol gael effaith ar gynladwyedd y gymuned ei hun. Gallai colled o'r fath wneud ardal yn llai deniadol i rieni plant ifanc. Ystyrir yr effaith hwn i fod yn fwy o bosib, ble y gallai ysgol ardal yn Esgyrn gymryd lle safle ysgol yn Ysgol Maelgwn.</i></p>

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgyryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
<p>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol</p> <p>Pwysiad 25</p>	1 (25)	1 (25)	0 (0)	1 (25)	<p>Mae pob ysgol yn darparu ystod debyg o weithgareddau, nid oes yr un ohonynt angen cyfleusterau arbenigol. Rhagwelir y byddai cyflenwad tebyg neu fwy o weithgareddau yn cael ei ddarparu mewn unrhyw ysgol y dyfodol, gan weithio fel Ysgol Fro.</p> <p>O bosib gallai disgyblion elwa o ystod ehangach o weithgareddau wrth rannu arbenigedd staff ac adnoddau ar draws y ddwy ysgol bresennol ar gyfer Dewisiadau 1, 2 a 4.</p>
<p>Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</p> <p>Pwysiad 10</p>	0 (0)	0 (0)	0 (0)	0 (0)	<p>Nid yw Ysgol Nant y Coed nac Ysgol Maelgwn wedi nodi defnydd o'r cyfleusterau cymunedol o fewn ardal Cyffordd Llandudno (e.e. Neuadd Goffa, Llyfrgell). Nid oes rheswm i ddisgwyl i hyn newid gydag ysgol newydd.</p>
<p>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol</p> <p>Pwysiad 25</p>	0 (0)	-1 (-25)	0 (0)	0 (0)	<p>Mae nifer tebyg o grwpiau yn defnyddio'r cyfleusterau ym mhob ysgol, er bod Ysgol Maelgwn yn cynnig darpariaeth Cylch Meithrin dyddiol yn ystod y tymor (yn ystod oriau ysgol) a chlybiau tu allan i ysgol (yn syth ar ôl ysgol), tra defnyddir Ysgol Nant y Coed yn amlach gyda'r nos. Felly, pe bai'r grwpiau hyn angen defnyddio'r un cyfleusterau ni ddylai fod yna wrthdrawiad ynghylch eu defnyddio.</p> <p>Ym mhob dewis, byddai buddsoddiad yn cael ei drefnu i ddod a'r safleoedd i fyny i safonau 'addas i'r pwrpas', gan olygu rhywfaint o welliant mewn cyfleusterau.</p>

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
					<p>Pan ystyrir anghenion y gymuned, mae Dewisiadau 1 a 2 yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer y gwelliant hwn fel adeiladau gwbl newydd. <i>Golyga hyn rhywfaint o welliant ar gyfer Dewis 1 a 2 y ddau safle (+1).</i></p> <p>Fodd bynnag, efallai na fyddai'r cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned leol ehangach ble eu lleolir ar un safle, yn arbennig ble byddai'r safle hwnnw ar un pen i'r prif anheddiad (Esgryn). <i>Golyga hyn rhywfaint o ddirywiad ar gyfer Dewis 1 a 2 yn safle Albini (-1), a dirywiad cymedrol yn safle Esgryn (-2).</i></p> <p>Ar gyfer y Clwb ar ôl Ysgol sy'n prydlesu uned symudol ar safle Maelgwn ar hyn o bryd, a'r Cylch Meithrin sy'n defnyddio uned symudol ysgol, byddai angen cyrraedd trefniadau lleol newydd. Fodd bynnag, nid oes rheswm i awgrymu na fyddai hyn yn cael ei gefnogi o dan unrhyw drefniadau newydd.</p>
Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth Pwysiad 10	+1 (10)	+1 (10)	0 (0)	0 (0)	Mae'r sgôr cyffredinol yn cynnwys asesiadau effaith ar gyflogaeth, manwerthwyr cyfleustra lleol, busnesau gofal plant a busnesau lleol sy'n cyflenwi'r ysgolion (gweler dadansoddiad o'r asesiadau hyn isod).

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgyryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
Dadansoddiad: <i>Cyflogaeth</i>	0	0	0	0	<i>Yn seiliedig ar y cyllid amcanol sy'n gysylltiedig ag ysgol ardal newydd (Dewisiadau 1, 2 a 4), byddai llai nag un swydd addysgu yn cael ei cholli allan o gyfanswm presennol o 16.31 swydd. O hyn gallwn nodi y byddai'r effaith ar y gymuned yn ddibwys.</i>
<i>Busnesau manwerthu lleol</i>	1	1	0	0	<p><i>Mae tri manwerthwr cyfleustra yn yr ardal, gyda dau yn nalgylch presennol Nant y Coed. Ystyrir mai lleoliad un ysgol sengl ar safle Esgyryn yw'r unig ddewis sy'n cyflwyno effaith negyddol posib, yn effeithio ar y siop bapurau newydd yn nalgylch Maelgwn, gyferbyn a'r orsaf drefnau.</i></p> <p><i>Mae'r siop hon yn agos iawn at Ysgol Maelgwn a gall elwa o fasnach yn gysylltiedig â'r disgyblion, staff a rhieni sy'n teithio i ac o'r ysgol bob dydd yn ystod y tymor.</i></p> <p><i>Fodd bynnag, ble fyddai ysgol ardal wedi ei lleoli yn Esgyryn, byddai mynediad i gerddwyr i'r safle hwn o ddalgylch presennol Maelgwn yn dod a disgyblion a rhieni ar hyd Conway Road - ble mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn yr ardal wedi eu lleoli. Gallai hyn o bosib olygu cynnydd mewn masnach ar gyfer y siopau hyn.</i></p>

MESUR	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgyryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
<i>Busnes gofal plant yn ardal Cyffordd Llandudno</i>	0	0	0	0	<p><i>Yn bresennol mae un busnes gofal plant yn nalgylch Nant y Coed a dau yn nalgylch Ysgol Maelgwn. Pe byddai lleoliad y safle ysgol Maelgwn yn symud i Esgyryn, gallai hyn amharu ar batrymau teithio i rieni gyda phlant iau sy'n mynd a brodyr neu chwiorydd i'r ysgol a gall olygu y gallai rhieni ddewis newid darparwyr. Gall hyn fod yn negyddol ar gyfer un darparwr ond cadarnhaol ar gyfer y llall.</i></p> <p><i>Ar gyfer darparwyr sefydledig a all gerdded rhai maent yn gofalu amdanynt i Ysgol Maelgwn, gallai symud i safle Esgyryn fod yn anfantais ac effeithio'n negyddol ar eu gallu i gynig eu lefel presennol o wasanaeth.</i></p> <p><i>Ble fo dwy ysgol yn cael ei hadleoli ar un safle, gall patrymau teithio ddod yn symlach ar gyfer darparwyr gofal plant, gyda dim ond un safle i ymweld ag o.</i></p>
<i>Busnesau sy'n cyflenwi'r ysgolion</i>	0	0	0	0	<p><i>Nid oes unrhyw fusnesau lleol (Ardal Cyffordd Llandudno) yn cyflenwi Ysgol Maelgwn, ac mae dau yn cyflenwi Ysgol Nant y Coed ar gyfer deunydd cynnal a glanhau. Ni ymddengys fod unrhyw gontractau arwyddocaol mewn lle i ddarparu'r naill ysgol neu'r llall gyda nwyddau neu wasanaethau, ac ni ystyri'r fod unrhyw fusnes lleol yn ddibynnol ar gwsmeriaeth yr ysgolion. Byddai disgwyl lefelau tebyg o fasnach gydag un ysgol sengl.</i></p>

Crynodeb o Asesiad Effaith Cymunedol

Mesur	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Albini House	Dewisiadau 1 a 2 Ysgol ardal ar safle Esgryn	Dewis 3 Cadw'r ysgolion presennol	Dewis 4 Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli
Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol	-30	-60	0	-30
Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	25	25	0	25
Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	0	0	0	0
Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol	0	-25	0	0
Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth	10	10	0	0
Cyfanswm Sgôr Effaith Cymunedol	5	-50	0	-5

Ystyrir fod ysgol ardal newydd yn Newisiadau 1 a 2 (safle Albini House) yn golygu rhywfaint o effaith cadarnhaol ar y gymuned. Mae dewis safle Esgryn yn Newisiadau 1 a 2 yn golygu rhywfaint o effaith negyddol. Ystyrir fod Dewis 3 'cadw'r ysgolion presennol' yn golygu dim effaith negyddol na chadarnhaol. Ystyrir fod Dewis 4 yn golygu rhywfaint o effaith negyddol.

5. Casgliadau ac Argymhellion

Canlyniad yr asesiad effaith yn seiliedig ar y pum mesur yn adran 4 yw y bydd dewisiadau 1 a 2 yn golygu effaith cadarnhaol yn gyffredinol ar y gymuned pan fo'r safle ar gyfer ysgol ardal newydd yw Albini House. Mae'r dewisiadau hyn yn sgorio rhywfaint yn negyddol pan ddewisir safle Esgyryn ar gyfer ysgol ardal. Mae Dewis tri 'Cadw'r ysgolion presennol' yn golygu effaith niwtral, heb unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud heblaw gwelliannau i gyfleusterau sy'n bodoli er mwyn dod a hwy i fyny at safonau 'addas i'r pwrpas'. Mae Dewis 4 (ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli) yn golygu ychydig iawn o effaith negyddol.

O'r dewisiadau a gyflwynwyd, y dewis a ddymunir gan yr ardal yw ysgol ardal i gymryd lle'r ysgolion sy'n bodoli ac i ryw raddau mae'r dymuniad hwn yn lleddfu effeithiau negyddol ehangach sy'n gysylltiedig â cholli un ysgol o ardal oedd â dwy yn flaenorol. Y prif effaith negyddol sy'n gysylltiedig â Dewisiadau 1, 2 a 4 yw colli'r dewis presennol rhwng dwy ysgol leol a fyddai'n deillio o un ysgol ardal yn cymryd eu lle, un ai ar un neu ddau safle. Mae tystiolaeth fod nifer o ddisgyblion lleol yn dewis ysgol eu dalgylch lleol, yn arbennig disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nant y Coed (53%). O'r disgyblion hynny nad ydynt yn dewis Ysgol Nant y Coed ond sy'n byw yn y dalgylch mae tua hanner yn dewis y dewis 'lleol' arall sef Ysgol Maelgwn.

O'r disgyblion hynny sy'n cael gwersi Cymraeg fel ail iaith ac sy'n byw yn nalgylch Ysgol Maelgwn, mae ychydig yn fwy yn dewis mynychu Ysgol Deganwy (58) na'u hysgol leol (54). Gall hyn fod yn rhannol oherwydd bod Ysgol Deganwy yn fwy cyraeddadwy nag Ysgol Maelgwn i rai o'r disgyblion hyn. Os yw agosrwydd yn fater pwysig yn lleol i rieni ei ystyried wrth ddewis ysgol, gallai ysgol ardal newydd yn un ai Albini House neu Esgyryn wneud Ysgol Deganwy yn ddewis mwy ffafriol.

Gallai goblygiadau ar amser teithio a phellter i ddisgyblion a defnyddwyr cymunedol fel ei gilydd o ysgol ardal yn Esgyryn yn cymryd lle Ysgol Maelgwn fod yn sylweddol. O bosib byddai amseroedd teithio yn cynyddu o tua 20 munud i 30 munud un ffordd. Byddai angen i ddisgyblion sy'n cerdded o ddalgylch presennol Ysgol Maelgwn i'r ddau safle arfaethedig groesi mwy o ffyrdd, yn arbennig Marl Drive a all fod yn brysur yn ystod oriau brig. Mae'r mater hwn wedi ei nodi a'i asesu fel rhan o'r Asesiad Effaith Cludiant.

Gellir gwella llif traffig gydag ysgol ardal yn Esgyryn, a dylai lleddfu tagfeydd oriau brys o amgylch y ddau safle presennol, y ddau mewn mannau preswyl. Mae hyn yn cael ei wrthdroi gyda chynnydd mewn amser cerdded i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Maelgwn. Mae'r mater hwn hefyd yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Cludiant.

Fel arall, byddai ysgol ardal yn safle Albini House yn cynnig lleoliad mwy canolog i bob disgybl, a gallant elwa o'r mynediad agos i'r A470 a gynigir hefyd gan ddewis safle Esgyryn. Gallai llif traffig o amgylch safle Albini House gynyddu'n sylweddol ble byddai'r ddau set o rieni yn cydgyfarfod yn y bore a'r prynhawn yn ystod y tymor. Defnyddir llawer ar Marl Drive gan breswylwyr i barcio tuag at Conway Road, er yn llai tuag at safle Albini House.

Gallai adleoli ysgol o fewn yr ardal gael effaith ar atyniad ardal leol ar gyfer prynwyr tai posib, yn arbennig y rhai gyda neu'n bwriadu cael plant. Mae hyn yn wir ar gyfer unrhyw wasanaeth, megis meddygfa, llyfrgell neu ganolfan hamdden. I'r gwrthwyneb, gall preswylwyr lleol ystyried adleoli ysgol i ffwrdd o ardal yn fuddiol a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. Ni

awgrymir effaith gadarnhaol neu negyddol cyffredinol yma ond mae'r posibilrwydd ar gyfer newid yng nghyfansoddiad preswylwyr dros amser yn cael ei gydnabod.

Agwedd sy'n ceisio lleihau effeithiau negyddol yw ymroddiad y Gwasanaethau Addysg i fuddsoddi ym mhob dewis er mwyn sicrhau fod pob ysgol yn 'addas i'r pwrpas'. Mae Dewisiadau 1 a 2 'adeilad newydd' yn cyflwyno cyfle ar gyfer dylunio cyfleusterau newydd heb unrhyw angen i gyfaddawdu gydag addasu'r hyn sydd yma'n bresennol, ac felly disgwylir iddynt gael gwell cyfleusterau. Fodd bynnag, byddai Dewisiadau 3 a 4 hefyd yn elwa o rywfaint o ddatblygu cyfleusterau a pharhau i gadw dau safle ar wahân ar draws yr ardal, yn hytrach nag un safle rhywfaint yn llai cyraeddadwy yn Esgyryn.

Fodd bynnag, o ran cyfleusterau cymunedol, nid yw'n glir os byddai ysgol 'newydd' yn darparu cyfleusterau sylweddol well na'r rhai a ddefnyddir gan grwpiau yn bresennol ar y ddau safle felly ac felly gall yr effaith cadarnhaol posib hwn gael ei wrthbwyso gan yr effaith negyddol sy'n gysylltiedig â mynediad, yn arbennig yn Esgyryn.

O'r grwpiau sy'n defnyddio'r cyfleusterau yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd, ni ragwelir gwrthdaro ble byddai cyfleusterau cyffredin yn cael eu defnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y defnydd gan y grwpiau yn ddigon isel i ganiatáu gwasanaethu pawb. Byddai adleoli'r Clwb ar ôl Ysgol a'r Cylch Meithrin sy'n gweithredu o'r cabanau yn Ysgol Maelgwn angen cytundebau lleol newydd pe byddai ysgol ardal newydd. Byddai adeilad newydd o bosib yn gallu cynnig gwell cyfleusterau o gymharu â'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd ac mewn unrhyw achos ni fyddai'n golygu cynnig cyfleusterau israddol.

Ar hyn o bryd nid oes llawer o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol yn yr ardal gan y ddwy ysgol. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw gyfleuster cymunedol yn colli eu defnydd.

Ar sail yr asesiad cyffredinol o effeithiau posib, nid yw unrhyw ddewis yn cynnig effaith cymunedol cadarnhaol.

Mae Dewisiadau 3 a 4 yn golygu cadw'r safleoedd sy'n bodoli ond o dan drefniadau trefniadol gwahanol. O blaid Dewis 3 yw cadw'r dewis i rieni yn yr ardal. O blaid Dewis 4 yw cyfuno adnoddau a manteision disgwylidig y gallai trefniant o'r fath ei olygu, megis mwy o arbenigedd a phrofiad staff i'w gynnig i fwy o boblogaeth o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n byw yn yr ardal leol. Byddai'r ddau ddewis yn elwa o fuddsoddiad yn y dyfodol er nad yw hyn yn debygol o wella cyfleusterau i ddisgyblion a defnyddwyr cymunedol i'r un graddau ag 'adeilad hollol newydd'.

O ystyried yr ystod eang o gyfleusterau cymunedol yn ardal Cyffordd Llandudno nid oes unrhyw fantais gymunedol arwyddocaol mewn adeiladu ysgol ardal newydd, er y rhagwelir y byddai ymgynghoriad anghenion cymunedol llawn yn rhagflaenu dylunio adeilad newydd. Ar y sail hon, ac o ystyried fod dewis rhieni yn bwysig yn lleol, Dewis 1 a 2 'Ysgol ardal newydd' (safle Albini House) yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio yma. Ystyrir fod Dewis 3 'Cadw'r ysgolion presennol' yn golygu effaith niwtral ar y gymuned yn gyffredinol. Ystyrir fod dewis safle Esgyryn ar gyfer Dewisiadau 1 a 2 yn golygu rhywfaint o effaith negyddol, fel y mae Ysgol Ardal ar y ddau safle sy'n bodoli (Dewis 4).

Atodiad

Methodoleg Asesiad Effaith Cymunedol

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol ystyried effaith y dewisiadau canlynol o Gynllun Gweithredu 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' ar ardal Cyffordd Llandudno:

Dewis 1 (a arweinir gan y gyrwyr) – ysgol ardal ar un safle (newydd) (un ai *Esgyryn* neu *Albini House*)

Dewis 2 (a ddymunir gan yr ardal) – ysgol ardal ar un safle (newydd) (un ai *Esgyryn* neu *Albini House*)

Dewis 3 – Cadw'r ysgolion presennol

Dewis 4 – Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

Bu i bob ysgol yn yr ardal gyflwyno gwybodaeth am eu swyddogaeth yn yr ardal (*gweler 3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion*). Gan ddefnyddio'r manylion hyn a gwybodaeth arall ynglŷn â Chyffordd Llandudno, bu i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol archwilio'r effeithiau posib y gall y dewisiadau arfaethedig eu cyflwyno.

Canfuwyd pum mesur allweddol gyda'r pwysiad a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a'u defnyddio i sicrhau fod materion penodol yn cael eu cynrychioli yn briodol:

- Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu eu hysgol leol (Pwysiad: 30)
- Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (Pwysiad: 25)
- Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol (Pwysiad: 10)
- Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol (Pwysiad: 25)
- Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth (Pwysiad: 10)

Yn erbyn pob Dewis (e.e. '*Dewis 3, Cadw'r ysgolion presennol*')

- Aseswyd y pum mesur (e.e. '*effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth*') i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar yr ardal.
- Yna rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth oedd ar gael.
- Yna lluoswyd pob sgôr unigol gyda'r pwysiad a gytunwyd ar gyfer y mesur.

Sgôr mesur	Asesiad mesur	Cyfanswm sgôr mesur
-3	Dirywiad mawr	-201 to -300
-2	Dirywiad cymedrol	-101 to -200
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 to -100
0	Dim newid ar y cyfan	0
1	Rhywfaint o welliant	1 to 100
2	Gwelliant cymedrol	101 to 200
3	Gwelliant mawr	201 to 300

Mae Adran 4.1 yn cyflwyno canlyniad yr asesiad effaith ar gyfer pob Dewis.

Troswyd cyfanswm y sgôr ar gyfer pob dewis i'r Gwerthusiad Dewis cyffredinol, gyda sgôr o 1-5, gydag 1 y sgôr isaf a 5 yr uchaf:

- 5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant
- 4 – Cytuno / Rhywfaint o welliant
- 3 – Ddim yn cytuno nac anghytuno / Dim newid
- 2 – Anghytuno / Rhywfaint yn waeth
- 1 – Anghytuno'n Gryf / Gwaeth

Asesiad effaith mesuriadau a sgorio Dewisiadau

Sgôr Mesur	Asesiad mesur	Cyfanswm sgôr mesur	Sgôr dewis	Asesiad dewis
-3	Dirywiad mawr	-201 i -300	1	Gwaeth
-2	Dirywiad cymedrol	-101 i -200		
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 i -100	2	Rhywfaint yn waeth
0	Dim newid ar y cyfan	0	3	Dim newid
1	Rhywfaint o welliant	1 i 100	4	Rhywfaint o welliant
2	Gwelliant cymedrol	101 i 200	5	Gwelliant